

CENEDLAETHOLDEB : GWEITHGAREDDAU

Cymharu ffurfiau gwahanol ar genedlaetholdeb (AO1, AO2)

Mae'r golofn gyntaf yn y tabl isod yn amlinellu ystod o safbwyntiau gwahanol y gellir eu cysylltu â gwahanol ffurfiau ar genedlaetholdeb. Darllenwch y wybodaeth yn ofalus ac yna ceisiwch benderfynu i ba un o'r traddodiadau cenedlaetholgar sydd wedi'u rhestru yn y tabl y mae'r safbwynt yn perthyn agosaf (rhowch dic yn y blwch priodol). I orffen nodwch reswm i egluro'ch dewis yn y golofn olaf.

Mewn rhai achosion, mae'n bosib y byddwch yn teimlo bod rhai o'r safbwyntiau yn medru cael eu cysylltu â mwy nag un o'r traddodiadau cenedlaetholgar. Os bddwch yn dod i'r casgliad hwn, cofiwch egluro pam yn y golofn olaf.

SAFBWYNT: Mae pob un o genhedloedd y byd yn gyfartal o ran statws ac felly yn meddu ar hawl cyfartal i huanbenderfyn-iaeth cenedlaethol.

✓	Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol	Rheswm dros eich dewis
✓	Cenedlaetholdeb Ceidwadol	
✓	Cenedlaetholdeb Ymledol	
✓	Cenedlaetholdeb Sosialaidd	

SAFBWYNT: Mae cynnal ymdeimlad eang o ddyletswydd ac o falchder cenedlaethol yn hanfodol er mwyn sicrhau undod, trefn a pharch at awdurdod.

✓	Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol	Rheswm dros eich dewis
✓	Cenedlaetholdeb Ceidwadol	
✓	Cenedlaetholdeb Ymledol	
✓	Cenedlaetholdeb Sosialaidd	

SAFBWYNT: Fe geir rhai cenedloedd 'breintiedig' sy'n meddu ar nodweddion diwylliannol a rhinweddau cymdeithasol sy'n eu gosod uwchlaw pob cenedl arall - mae dyletswydd ar y cenedloedd hyn i arwain y ffordd i weddill y byd.

✓	Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol	Rheswm dros eich dewis
✓	Cenedlaetholdeb Ceidwadol	
✓	Cenedlaetholdeb Ymledol	
✓	Cenedlaetholdeb Sosialaidd	

SAFBWYNT: Dim ond trwy sicrhau huanbenderfyn-iaeth cenedlaethol y gellir cyflwyno'r diwygiadau economaidd a fydd yn sicrhau cyfiawnder i aelodau'r dosbarth gweithiol.

✓	Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol	Rheswm dros eich dewis
✓	Cenedlaetholdeb Ceidwadol	
✓	Cenedlaetholdeb Ymledol	
✓	Cenedlaetholdeb Sosialaidd	